Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Swyddi Gwrydd I Gymru: Dogfen Ymgynghori**

**Dyddiad:** **18 Tachwedd 2008**

**Gan:** **Ieuan Wyn Jones, Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Dros Yr Economi a Thrafnidiaeth, A Jane Davidson, Y Gweinidog Dros Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd A Thai**

---

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lansio dogfen ymgynghori heddiw i geisio barn pobl am y Strategaeth Swyddi Gwyrdd. Mae datblygu'r strategaeth hon yn un o ymrwymiadau allweddol ein Rhaglen ar gyfer Llywodraethu, Cymru'n Un.

Mae i'r Strategaeth arwyddocâd ychwanegol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae'n rhan o ystod o fesurau sy'n ehangach o lawer ac sy'n anelu at greu economi gynaliadwy ar seiliau cadarn busnesau cynaliadwy, technolegau cynaliadwy a chyflogaeth gynaliadwy. Bydd y rhain yn gwneud cyfraniad pwysig i'r modd y bydd Cymru yn ymdrin â'r sefyllfa bresennol, ac i'r modd y bydd yn mynd ati i'w gosod ei hun mewn lle da i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio a chymell y cyfleoedd busnes sy'n gysylltiedig â newid i economi carbon isel ac isel o ran gwastraff, gan gynnwys cyflawni yn y meysydd canlynol:

- un o dargedau Cymru'n Un, sef lleihau allyriadau CO2 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen mewn meysydd lle mae'r cymwyseddau wedi'u datganoli;
- y cynnig i gynyddu'r targedau ailgylchu ar gyfer gwastraff trefol;
- y Trywydd Ynni Adnewyddadwy

Y nod cyffredinol yw annog busnesau i fabwysiadu dull o gynhyrchu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau sy'n effeithlon o ran adnoddau yn ei holl agweddau. Rydym am i fusnesau Cymru fod yn fwyfwy carbon isel ac isel o ran gwastraff er mwyn eu diogelu yn y dyfodol yn erbyn yr heriau sy'n gysylltiedig â diogelwch ynni a phrinder adnoddau naturiol, yn enwedig olew. Bydd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn ategu pwysigrwydd technolegau newydd ac yn adlewyrchu ein dull

newydd o weithredu ym maes Datblygu Cynaliadwy, a fydd yn cael ei amlinellu yn ewin Cynllun arfaethedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, Cymru Un Blaned. Bydd hyn yn cynyddu'r pwysigrwydd o bennu trywydd i Gymru heb ddefnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau cyfyngedig y ddaear, a bydd yn dangos sut y gall dull cynaliadwy o weithredu wella bywydau cymunedau llai cefnog ein gwlad.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod arbenigedd a barn busnesau'n cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Rydym yn awyddus i fusnesau deimlo bod ganddynt hwythau le yn y gwaith o lywio'r strategaeth. O'r herwydd lluniwyd y ddogfen yn benodol er mwyn annog ymateb gan fusnesau'n benodol, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

Bydd y broses ymgynghori hon yn sicrhau felly y bydd y strategaeth yn diwallu anghenion busnesau'n llawn ac yn eu cynorthwyo i wynebu'r heriau a'r cyfleoedd a fydd yn dod yn sgil y newid i gymdeithas isel mewn carbon ac isel mewn gwastraff. Mae sefydliadau fel CBI Cymru, TUC Cymru a'r sector gwirfoddol wedi dweud eisoes y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dod yn rhan o'r broses hon.

Anfonir y ddogfen ar ffurf e-bost at amryw o sefydliadau, a bydd modd ei gweld hefyd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff y Strategaeth ei chwblhau'n derfynol yn dilyn y 12-wythnos a neilltuir at ddibenion ymgynghori ac ar ôl dadansoddi'r ymatebion.